

ROBERTS, MICHAEL (bu farw 1679), pennaeth Coleg Iesu yn Rhydychen

Enw: Michael Roberts
Dyddiad marw: 1679
Rhiant: Alice Roberts
Rhiant: Evan Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pennaeth Coleg Iesu yn Rhydychen
Maes gweithgaredd: Addysg
Awdur: Thomas Richards

Mab Evan Roberts ac Alice ei wraig o blwyf Llanffinan ym Môn - dyddiad ei eni'n anhysbys. Bu am dymor yng Ngholeg Caius, Caergrawnt, a Choleg y Drindod, Dulyn, lle y graddiodd yn B.A. 1620, M.A. 1623; ar sail hyn, corfforwyd ef yn aelod o brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, ill dwy yn 1624; daeth yn gymrawd o Goleg Iesu, Rhydychen, 1625 - yno y bu tan 1638, pan gollodd ei le oherwydd rhyw anghaffael ynghylch torri'r rheolau am radd D.D. Enwir ef fel yn dal bywoliaeth ym Môn, ac yn Llangynwyd ym Morgannwg. Yn ystod y Rhyfel Cartref, ansicr oedd ei rodiad; yn ôl ei elynion bu'n gaplan yng nghastell Caernarfon (byddin y Senedd), ac yn swcwr mawr (os nad dan arfau ei hun) i wrthryfelwr Môn yn 1648 (byddin y brenin). Sut bynnag, pan ddaeth y profwyr Piwritanaidd i Brifysgol Rhydychen yn 1648, a throï allan brifathro Coleg Iesu, Michael Roberts a benodwyd yn ei le, a chafodd D.D. o dan y drefn newydd (1649). Am naw mlynedd aeth y coleg yn nyth cacwn. Edrychai'r Brenhinwyr cudd ymhlith y cymrodyr arno fel bradwr i'w hachos; i'r garfan Biwritanaidd nid oedd yn ddim ond rhagrithiwr. Saerniwyd c yn ar ôl c yn yn ei erbyn, rhai yn myned yn ôl at ei rawd cyn y rhyfel, eraill yn ei gyhuddo o ddrygu buddiannau'r coleg drwy gamystumio arian a bwnglera gyda thiroedd. Bu apelio at y 'Visitor' ([iarll Penfro](#)), at y 'Visitors' Piwritanaidd, ac at y Diffynnwr, ac ef (yn ôl pob tebyg), yn rhinwedd ei swydd fel canghellor y brifysgol, a ddiswyddodd Michael Roberts yn 1657. Daliodd Roberts i fyw yn Rhydychen hyd ei farw, 3 Mai 1679, yn piwus gyfreithio gydag awdurdodau Coleg Iesu, ymgeintach gyda'i berthnasau ym Môn, ac ofer ddisgwyl am ddyrchafiadau yn yr Eglwys. G r ystyfnig, anystywallt, brwd am ei ffordd ei hun, a phur amddifad o egwyddorion uchel. Ond dylid cofio pump o bethau amdano: iddo (gydag un arall) gywiro argraffiad *Beibl bach* 1630 ar ei ffordd drwy'r wasg; ysgrifennu 'encomium' i *Gemma Cambri* [Richard Jones](#) o Lanfair Caereinion, 1655; talu teyrnged Ladin swyddogol (24 Gorffennaf 1676) i'r ail-argraffiad o *Hanes y Ffydd*; anfon nodiadau am lawer o Gymry ar gyfer *Athenae* Anthony Wood; a bod yn bur llawdrwm ar argraffiad 1672 o'r *Testament Newydd* (am fod [Stephen Hughes](#) a'i gymrodyr wedi gadael y Llyfr Gweddi allan ohono).

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Oxford University registers a *Jesus College Manuscripts*

M. Burrows *The Register of the Visitors of the University of Oxford, 1647–58* (1881) (Camden Society, 1881)

Llawysgrifau Wynne yng Ngholeg All Souls, Rhydychen (All Souls), 239. 240

Henllys Manuscripts (U.C.N.W.). 482-4

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1922-3, 1-111

Journal of the Welsh Bibliographical Society, 1923, 302-13

Hardy, *Jesus College* (1899) (mynegai)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [95373964](#)

Wikidata: [Q16203708](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

